

COFNODION

Dyddiad:	5 Chwefror 2003
Amser:	9.00 – 12.30pm
Lleoliad:	Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Yn bresennol:	
Aelodau	<p>Rhodri Glyn Thomas (Plaid Cymru, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, Cadeirydd)</p> <p>Jenny Randerson (Democratiaid Rhyddfrydol, Canol Caerdydd, Gweinidog y Cynulliad)</p> <p>Owen John Thomas (Plaid Cymru, Canol De Cymru)</p> <p>Lorraine Barrett (Llafur, De Caerdydd a Phenarth)</p> <p>Delyth Evans (Llafur, Canolbarth a Gorllewin Cymru)</p> <p>Alison Halford (Llafur, Delyn)</p> <p>Dafydd Wigley (Plaid Cymru, Caernarfon)</p> <p>Glyn Davies (Ceidwadwyr, Canolbarth a Gorllewin Cymru)</p> <p>Rosemary Butler (Llafur, Gorllewin Casnewydd)</p>
Swyddogion	<p>Margaret Evans (Is-adran y Celfyddydau, y Loteri a Chwaraeon)</p> <p>Arthur Emyr (Is-adran y Celfyddydau, y Loteri a Chwaraeon)</p> <p>Peter Harding (Is-adran y Celfyddydau, y Loteri a Chwaraeon)</p> <p>Prys Davies (Is-adran Diwylliant a'r Iaith Gymraeg)</p> <p>Debra Carter (Pennaeth, Gwasaneth Ymchwil yr Aelodau)</p>
Ysgrifenyddiaeth	Marie Knox: Pennaeth Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau (MRCS)

	Lynsey Hazzard: Dirprwy Glerc
	Gareth Woodhead: Swyddog Gweinyddol

### **9.00am-9.05am**

#### **Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant**

1. Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Pwyllgor ac aelodau'r cyhoedd.
2. Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau o'r gofyniad i ddatgan buddiant, yn unol â Rheol Sefydlog 4.5.
3. Tynnodd y Gweinidog sylw'r Pwyllgor at y ffaith y byddai Russell Thomas yn ymddeol ymhen ychydig wythnosau. Byddai Margaret Evans yn ymgymryd â'r cyfrifoldeb dros staff Mr Thomas a'i feysydd polisi.

### **9.05am hyd 10.00am**

#### **Eitem 2: "Diwylliant Cytûn" - gweithredu argymhellion y Pwyllgor. Y diweddaraf ar "Cymru Greadigol"**

**CC 02-03(p.1); CC 02-03 (p2)**

**Cyflwynwyr: Margaret Evans; Peter Harding**

1. Cyflwynodd y Gweinidog ei phapur gan dynnu sylw at y pwyntiau canlynol:

- Roedd y strategaeth yn rhaglen ddeng mlynedd a gwnaed cryn gynnydd ers i'r strategaeth gael ei lansio y llynedd.
- Roedd llawer o'r Cyrff Cyhoeddus diwylliannol a Noddir gan y Cynulliad wedi datblygu strategaethau newydd yn ystod y cyfnod hwn.
- Bu cynnydd o 11% yn y gyllideb ddiwylliant yn 2002-03 a bwriedir ei chynyddu gymaint â hynny eto yn 2003-04. Roedd sefydlu'r Gronfa Ddiwylliant yn ddatblygiad allweddol.
- Roedd Llywodraeth y Cynulliad wedi sefydlu materion diwylliannol yn thema drawsbynciol bwysig.
- Roedd Cyngor Celfyddydau Cymru wedi'i ailstrwythuro.
- Roedd nifer o brosiectau gwahanol, blaengar wedi dechrau, o'r fenter mynediad am ddim i amgueddfeydd i'r gwaith adeiladu ar Ganolfan Mileniwm Cymru.
- Chwaraeodd Cymru'n Creu rôl allweddol o ran monitro a yw targedau Cymru Greadigol yn cael eu cyrraedd.
- Byddai cyfarfod nesaf Cymru'n Creu yn cael ei gynnal ar 13 Chwefror lle y byddai matrices manwl o weithgareddau, cerrig milltir a datblygiad Cymru Greadigol yn cael ei ystyried.

1. Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth wedyn:

- Croesawodd yr Aelodau y cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r pwyntiau o fewn Cymru Greadigol, a'r cynnydd yn y gyllideb ddiwylliant. Ystyriwyd bod creu portffolio diwylliant ar gyfer Gweinidog

wedi bod yn ysgogiad i'r cynnydd a wnaed.

- Mewn ymateb i ymholiad, esboniodd y Gweinidog fod corff arwain ar gyfer pob un o'r wyth maes gweithredu bras yn Cymru Greadigol a chrynhodd eu cyfrifoldebau.
- Roedd y Gweinidog yn anghytuno â'r awgrym y dylid sefydlu ysgrifenyddiaeth lawnamser i gefnogi Cymru'n Creu gan ei bod yn teimlo y byddai hyn yn arwain at fwy o fiwrocratiaeth a bod y swyddogaeth hon eisoes yn rhan o rôl Is-adran Diwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- Esboniodd y Gweinidog fod rhan o'r gyllideb - a gynyddwyd - wedi helpu i sefydlogi'r gwaith o ariannu cleientiaid refeniw Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad oedd â dyledion sylweddol. Nododd hefyd fod costau rhedeg Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, o dan y system Ariannu Diwylliant newydd, yn cael eu dangos ar wahân i systemau ariannu ar gyfer mentrau penodol. Hysbysodd y Gweinidog yr Aelodau nad oedd arian loteri'r Cyngor Celfyddydau yn cynyddu.
- Mewn ymateb i ymholiad, esboniodd y Gweinidog bod Cymru'n Creu wedi gofyn i Awdurdod Datblygu Cymru ddiweddarau ei ffigurau costio ynghylch manteision economaidd prosiectau arbennig.
- Gofynnodd rhai Aelodau a oedd Dawnsio wedi cael digon o sylw yn y strategaeth. Atgoffodd y Gweinidog yr Aelodau fod Dawnsio wedi'i gynnwys yn strategaeth ddatblygu 5-mllynedd y Cyngor Celfyddydau a byddai'n cael rhagor o sylw ar ôl creu Canolfan Mileniwm Cymru.
- Mewn ymateb i gwestiwn, hysbysodd y Gweinidog yr Aelodau fod y Cyngor Celfyddydau yn trafod gyda Chyngor Llyfrau Cymru ynghylch mynd ati i hyrwyddo cyhoeddi cyfrwng Saesneg ochr yn ochr â'r posibilrwydd o drosglwyddo cronfeydd.
- Esboniodd y Gweinidog i'r Aelodau fod awdurdodau lleol yn cael eu hystyried yn bartneriaid a bod eu rôl wrth weithredu'r strategaeth yn cael ei gweld fel rhywbeth hanfodol.
- Roedd rhai Aelodau yn teimlo bod angen i'r strategaeth ganolbwyntio'n fwy ar gymunedau difreintiedig. Atgoffodd y Gweinidog yr Aelodau fod y cynllun bwrsari ar gyfer oedolion difreintiedig yn dal yn ei le a'i fod yn rhan o strategaeth ddatblygu 5-mllynedd Cyngor y Celfyddydau.
- Nododd y Gweinidog fod llinellau cyfathrebu clir yn parhau â Chanolfan Ewropeaidd Cymru drwy'r Cyngor Prydeinig a Chelf Cymru Rhyngwladol a hysbysodd yr Aelodau y byddai'n cynrychioli'r Deyrnas Unedig ochr yn ochr â'i gweithiwr cyfatebol yn yr Alban yng nghyfarfod y Cyngor Gweinidogion ar amrywiaeth ddiwylliannol yn Strasbourg.
- Nododd swyddogion y byddai gwobr Artes Mundi yn teithio o gwmpas Cymru bob blwyddyn.
- Mewn ymateb i geisiadau, cytunodd y Gweinidog i drefnu bod aelodau'r pwyllgor yn cael cyfarfod anffurfiol dros ginio gyda Cymru'n Creu; darparu adroddiad ar yr adolygiad o'r Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig; a threfnu bod copïau o gylchgrawn cerddoriaeth Honk yn cael ei anfon at yr Aelodau yn y dyfodol.

2.3 Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau fod papur CC 03-03(p.2) yn ddogfen a luniwyd gan Wasanaeth Ymchwil newydd yr Aelodau ac a gomisiynwyd gan Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau. Roedd tîm Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau yn treialu gwahanol ffyrdd o roi cymorth ychwanegol a chyngor briffio i bwyllgorau.

### **Pwyntiau gweithredu:**

- Swyddogion i ddarparu papur ar y Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig erbyn y cyfarfod nesaf.
- Swyddfa/swyddogion y Gweinidog i drefnu bod y cylchgrawn, "Honk", i gael ei anfon at holl

aelodau'r pwyllgor.

- Y Gweinidog i ddosbarthu manylion cyfarfod Cymru'n Creu yn ystafelloedd cynadledda A/B ddydd Iau 13 Chwefror a threfnu bod aelodau'r pwyllgor yn cael cinio gyda Cymru'n Creu.

## **10.00am-10.45am**

### **Eitem 3: Y Mesur Cyfathrebu**

#### **CC-03-03 (p3)**

Cyflwynwyr: Margaret Evans; Prys Davies

1. Esboniodd y Cadeirydd fod yr eitem yn gyfle i barhau â thrafodaethau blaenorol y Pwyllgor ar y Mesur Cyfathrebu drafft. Roedd y Cadeirydd yn siomedig nad oedd y DCMS wedi dod i'r cyfarfod oherwydd ymrwymadau Seneddol. Yn hytrach, roedd wedi cael llythyr a datganiad oddi wrth Dr Kim Howells. Roedd y Cadeirydd yn siomedig hefyd nad oedd mwy o awgrymiadau'r Cynulliad wedi'u hymgorffori yn y Mesur ac roedd yn teimlo bod y cysylltiad rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac OFCOM yn ansicr.
2. Roedd y Gweinidog yn teimlo bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud peth cynnydd o ran gweithredu ei hawgrymiadau ac roedd nifer o bwyntiau a godwyd gan y Cynulliad hefyd wedi eu codi gan Gyd-bwyllgor Ty'r Cyffredin a Thy'r Arglwyddi. Roedd y Gweinidog yn teimlo bod perthynas dda wedi'i sefydlu gydag OFCOM. Roedd wedi cyfarfod â'r Arglwydd Currie ac Ian Hargreaves ym mis Rhagfyr. Roedd Ian Hargreaves wedi cael cyfrifoldeb arbennig am genhedloedd a'r rhanbarthau. Roedd yn ymwybodol o bwysigrwydd cysylltu â Chymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ac roedd ganddo wybodaeth dda o faterion sy'n ymwneud â'r cyfryngau yng Nghymru.
3. Cododd y pwyntiau canlynol wrth drafod:

- **Aelodaeth o Fwrdd OFCOM**

Mynegodd rhai aelodau siom nad oedd Cymru wedi sicrhau cynrychiolydd ar brif fwrdd OFCOM. Ond roedd eraill yn teimlo nad dyna oedd y brif broblem. Corff rheoliadol y DU oedd bwrdd canolog OFCOM ac felly roedd angen delio â materion ar lefel y DU. Cytunwyd bod angen i'r strwythur yng Nghymru fod yn briodol er mwyn sicrhau mewnbwn effeithiol o Gymru i OFCOM.

- **Bwrdd Cynnwys/Panel Defnyddwyr**

Ymgynghorwyd â Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â dewis enwau i'w cyflwyno i'r Bwrdd Cynnwys. Byddai cynrychiolydd o Gymru ar y Bwrdd Cynnwys a'r Panel Defnyddwyr.

- Swyddfa OFCOM yng Nghymru

Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi llwyddo i ddadlau o blaid sefydlu swyddfa OFCOM yng Nghymru.

- Memorandwm Dealltwriaeth

Roedd y Gweinidog yn teimlo ei bod yn drueni bod llawer o'r awgrymiadau a wnaed gan y Cynulliad wedi'u gadael yn fater i Femorandwm Dealltwriaeth, yn hytrach na'u hymgorffori yn y Mesur. Roedd hyn yn golygu y byddai'n haws i lywodraethau'r dyfodol a fydd, o bosib, â safbwyntiau gwahanol ddiddymu telerau'r Memorandwm Dealltwriaeth.

- Grwp Ymgynghorol y Gweinidog

Roedd y Gweinidog yn cynnull grwp bach i roi cyngor ar gylch gwaith OFCOM yng Nghymru a chynnig cyngor i'r Gweinidog cyn ei sylwadau i'r Arglwydd Currie. Roedd y Gweinidog wedi gwahodd Geraint Talfan Davies i gadeirio'r grwp. Ymhlith yr aelodau eraill roedd Leighton Andrews, yr Athro Mike Ted, Arwel Ellis-Owen a Delyth Evans, a fyddai'n gyswllt pwysig i'r Pwyllgor. Roedd yr adolygiad i fod yn ymarfer tymor byr, gydag argymhellion yn ofynnol erbyn dechrau Ebrill. Roedd y Gweinidog hefyd yn ystyried sefydlu grwp i lunio cynllun hirdymor ar gyfer gweithredu OFCOM. Y gobaith oedd y byddai'r grwp hwn yn cael ei sefydlu mewn cysylltiad â Cymru'n Creu. Roedd y grwp presennol wedi'i ddewis oherwydd gwybodaeth yr unigolion o ddarlledu ac nid er mwyn cydbwysedd gwleidyddol neu ddaearyddol. Gofynnodd Dafydd Wigley i'r Pwyllgor nodi ei anfodlonrwydd ar y pwynt hwn. Cadarnhawyd na fyddai'r grwp yn cael ei dalu am ei waith ac y byddai'n siarad â gwahanol grwpiau sy'n ymwneud â chyfathrebu ac yn rhoi adroddiad mewn ffordd ddiduedd.

- Yr Awdurdod Cyfathrebu drwy Radio (RCA)

Roedd ocsiwn y sbectrwm radio yn enghraifft o'r ffordd yr oedd Cymru wedi methu â rhoi mewnbyn i benderfyniad y byddai iddo, o bosib, oblygiadau difrifol i Gymru. Roedd rhai aelodau yn teimlo bod diffyg sedd ar Fwrdd yr RCA yn ffactor a gyfrannodd tra bo eraill yn teimlo mai'r broblem oedd nad oedd yr RCA wedi addasu i'r sefyllfa newydd a fodolai ar ôl datganoli, ac y byddai OFCOM yn sefydliad mwy sensitif ar ôl datganoli. Yn y dyfodol, byddai OFCOM yn cymryd drosodd rôl yr RCA.

- S4C a HTV

Roedd angen rhoi digon o ystyriaeth i sefyllfa unigryw S4C o ran rhaglennu rhanbarthol.

- RNIB Cymru

Roedd angen rhoi mwy o ystyriaeth i bobl fyddar a dall yn y Mesur. Roedd y Gweinidog wedi codi pryderon ar y pwynt hwn yn ystod ei chyfarfod gyda'r Arglwydd Currie.

- Y Pwyllgor i ystyried craffu ar ddarlledu rhanbarthol o fewn OFCOM unwaith y bydd yn ymgymryd â'r cyfrifoldeb am y mater hwn. Yn nhymor yr hydref yr oedd hyn yn fwyaf tebygol.

**Egwyl: 10.45am-11.00am**

**11.00am hyd 11.45am**

#### **Eitem 4: Cymorth Ymchwil ar gyfer Pwyllgorau**

**Cyflwynydd: Debra Carter, MRCS**

1. Siaradodd y Cadeirydd cyn y cyflwyniad ffurfiol ar ail-lansio Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau i'r Pwyllgor.
- Yn dilyn argymhellion yr Adolygiad o Weithdrefnau'r Cynulliad, roedd 10 ymchwilydd ychwanegol wedi eu recriwtio ers haf 2002. Roedd pedwar tîm pwnc, a phob un, gyda eithriad y tîm iechyd yn cynorthwyo dau bwyllgor pwnc ac un pwyllgor sefydlog neu fater trwas doriadol. Roedd tîm y Pwyllgor Diwylliant felly hefyd yn ymwneud â'r Pwyllgorau Cyfle Cyfartal ac Addysg a Dysgu Gydol Oes. Roedd MRCS hefyd yn rhoi cymorth briffio i Aelodau unigol o'r Cynulliad. Ar hyn o bryd, nid oedd arbenigedd benodol o fewn y tîm diwylliant mewn perthynas â'r iaith Gymraeg.
  - Awgrymwyd y dylai'r ymchwil a wneir ar gyfer un pwyllgor fod ar gael i bob Aelod, gan fod yr Aelodau yn ei chael yn anodd bod yn siwr bob amser beth mae pwyllgorau eraill yn ei wneud, o gofio eu baich gwaith. Roedd safle yn cael ei ddatblygu ar y Fewnrwyd i ganiatáu i holl bapurau ymchwil MRS fod ar gael yn ôl y gofyn.
  - Cafodd MRS wybodaeth ymchwil o lawer o ffynonellau, ond roedd dod o hyd i amser i gael gafael ar ymchwil a llunio gwybodaeth yn destun. Gwnaed cymariaethau â San Steffan, lle roedd 170 o ymchwilyddwr a oedd yn gweithio yn y llyfrgell yn rhoi briffiadau manwl i Aelodau Seneddol. Yn ogystal â'r gwasanaeth hwn i Aelodau Seneddol unigol, roedd gan bwyllgorau dethol San Steffan ymgynghorwyr arbenigol. Roedd yr Aelodau yn teimlo bod awdurdod a chywirdeb papurau a oedd yn cael eu cynhyrchu gan MRS yn hanfodol er mwyn iddynt fod o gymorth i'r Aelodau. Os nad oedd gwybodaeth ar gael ar bwnc arbennig, byddai o ddefnydd i Aelodau wybod pam ac a oedd MRS wedi cael unrhyw drafferthion wrth ddelio â sefydliadau penodol. Dylai'r Ysgrifenyddiaeth fod yn gwbl annibynnol ar y swyddogion sy'n cynorthwyo Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn darparu gwybodaeth wrthrychol, ond dylai allu cael gafael ar wybodaeth oddi wrth swyddogion yn ogystal ag o ffynonellau eraill. Cynigiodd y Gweinidog ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol i lenwi'r bylchau yn y tabl ym mhapur P2.
  - Roedd yr Aelodau yn pryderu ynghylch sut y byddai tîm MRS yn ymdopi â cheisiadau lu am friffiadau gan wahanol aelodau o'r pwyllgorau. Dywedodd y Cadeirydd y dylid cyflwyno ceisiadau am friffiadau sy'n ymwneud â'r pwyllgor drwy'r Cadeirydd i sicrhau bod adnoddau yn cael eu dyrannu mewn ffordd deg. Byddai Aelodau unigol o'r Cynulliad yn parhau i fod yn rhydd i wneud cais am friffiadau cyfrinachol yn uniongyrchol o Lyfrgell yr Aelodau.

#### **Pwyntiau Gweithredu**

- Y swyddogion i ddarparu'r wybodaeth sydd ar goll o ran cynnydd y strategaeth Cymru Greadigol.

**11.45am hyd 12.30pm**

**Eitem 5: Adolygiad Polisi ar Gymryd Rhan mewn Chwaraeon: argymhellion bras ("penawdau'r adroddiad")**

5.1 Pwrpas yr eitem hon oedd ystyried strwythur drafft adroddiad y Pwyllgor a'i brif argymhellion. Cododd y pwyntiau canlynol wrth drafod:

- Cytunwyd mai teitl yr adroddiad fyddai "Chwaraeon ac Ymarfer Corff".
- Dylai'r adroddiad gynnwys diffiniad o chwaraeon. Rhoddodd y Gweinidog ddiffiniad Cyngor Ewrop i'r Pwyllgor: "All forms of physical activity which, through casual or organised participation, aim at expressing or improving physical fitness and well being, forming social relationships or obtaining results in competition at all levels." Mabwysiadodd y Pwyllgor y diffiniad hwn.
- Roedd angen mwy o bwyslais ar yr elfen o "hwyl" mewn chwaraeon. Awgrymwyd y gallai "Rhagair y Cadeirydd" i'r adroddiad gynnwys hyn.
- Dylai'r grwpiau cymunedol mwy difreintiedig fod yn flaenoriaeth uchel yn yr adroddiad.
- Roedd pryder ynghylch y ffaith bod eitemau sy'n ymwneud â lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl wedi'u rhoi ar ddiwedd y ddalen gynnwys a hefyd ar ddiwedd yr eitem o dan y pennawd "Blaenoriaethau".
- O gofio bod cymaint o fentrau yn eu lle eisoes ledled Cymru, awgrymwyd y dylai'r Pwyllgor ystyried gwneud "arferion gorau" yn un o brif themâu'r adroddiad. Awgrymwyd hefyd y dylai chwaraeon fod yn fater polisi ar gyfer y Cynulliad cyfan, gan ymgorffori'r portffolios iechyd ac addysg. Fel hyn, gallai'r Cynulliad ystyried ffyrdd o atal salwch yn hytrach na'i wella, gan fabwysiadu polisi'r Ffindir, "Ffit i Fyw".
- O dan y pennawd "Cyfleoedd" dylid nodi'r diffyg cyfleusterau mewn ysgolion cynradd gan fod hyn yn lleihau'r amser sydd ar gael i blant ysgol wneud chwaraeon neu ymarfer corff.
- Dylai'r adroddiad gyfeirio at ddawnsio yn ogystal â chwaraeon. Awgrymwyd ymchwilio'n fwy i'r hyn yr oedd awdurdodau lleol yn ei wneud yn y maes hwn. Mewn rhai cylchoedd, roedd pobl yn cyfeirio at ddawnsio, bellach, fel "Chwaraeon Dawns".
- Nid oedd yn rhan o gylch gwaith y Pwyllgor i benderfynu ar faterion ariannu mewn perthynas â'i argymhellion, ond dylid cadw'r gost mewn cof.
- Dylid trefnu'r argymhellion mewn perthynas â grwpiau neu sectorau sy'n flaenoriaeth, nid mewn perthynas â sefydliadau penodol.
- O ran chwaraeon elitaidd, teimlwyd ei bod yn bwysig cynnwys pa mor hawdd/anodd yr oedd i bobl gael cefnogaeth drwy ganolfannau rhanbarthol ledled Cymru.

5.2 Dylid anfon unrhyw syniadau neu awgrymiadau eraill mewn perthynas â'r adroddiad at yr Ysgrifenyddiaeth.

**Eitem 6: Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**CC-02-03 (min)**

6.1 Cytunodd yr aelodau i gymeradwyo cofnodion 22 Ionawr 2003.

**Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau Chwefror 2003**